# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWASANAETH YSGOLION

## CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

## 4.00 – 5.05PM, 13 MEHEFIN 2024

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol (Hybrid)** | Bethan Davies (Cadeirydd), Sara Hughes, Rhian Nelmes, Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Y Cynghorydd Rhian Evans, Helen Ovens, Cathryn Lloyd-Williams, Stuart Whincup, Hefin Jones (Pennaeth). |
| **Clerc:** | Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr) |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredu gan*: |
|---|---|---|---|
| 1 | **YMDDIHEURIADAU:** | | |
| | Cafwyd ymddiheuriad gan Siwan Evans. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriad. | | |
| 2i | **DATGELU BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r canlynol: | | |
| | a) | yr angen i ddatgelu eu budd mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu a drafodir yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, a fyddai'n golygu y byddai angen iddynt adael y cyfarfod; | |
| | b) | byddai unrhyw fudd a ddatgelir yn cael ei gofnodi; | |
| | c) | bod eitemau a drafodir yn ystod cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus. | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi'r uchod. | | |
| 2ii | **COFNODION:** | | |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.03.2024, a byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd ac yn cael eu hanfon ymlaen at Adran y Llywodraethwyr. | | |
| 2iii | **MATERION YN CODI O'R COFNODION:** | | |
| | Ffensys: Mae'r materion yn parhau a chaiff trafodaethau pellach eu cynnal. Mynegwyd pryder am faint y bwlch dan y ffens a'r system gloi, y mae angen ei hadolygu. | | |
| 2iv | **PWYLLGORAU:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y cynhaliwyd cyfarfod agored gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mynegwyd pryderon eithaf cryf ymhlith y staff atodol am lwyth | | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredu gan*: |
|---|---|---|
| | gwaith, amodau gwaith a disgwyliadau'r ALl ynghylch rhedeg rhaglenni ymyrraeth. Ni lwyddwyd i ddatrys y mater yn llawn ond bu gwelliant. Byddai llai o ddisgyblion yn cael eu tynnu allan o'r dosbarth i gael ymyrraeth yn ystod tymor yr hydref.<br>Roedd y Pennaeth wedi drafftio adroddiad/llythyr yn dilyn y cyfarfod, nad yw wedi cael ei rannu eto.<br>Cyflogir llai o staff yn yr ysgol ac mae eu horiau'n amrywio, a dim ond am awr a hanner yr wythnos y mae'r holl staff yno gyda'i gilydd.<br>Caiff y sefyllfa ei monitro o hyd wrth i anghenion a sefyllfaoedd disgyblion newid yn gyson. | |
| 2v | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2023-2024**: | |
| | Caiff yr adroddiad ei baratoi a bydd ar gael i rieni yn ystod tymor yr hydref. | |
| 3i | **ADRODDIAD Y PENNAETH:** | |
| | Darparwyd copi o adroddiad y Pennaeth i'r Aelodau yn flaenorol. Cafwyd trafodaeth am y canlynol:<br>**Estyn**: Hysbyswyd yr aelodau gan y Pennaeth o'r prif bwyntiau a godwyd gan Estyn yn ei harolygiad yn ddiweddar, cafwyd adborth cadarnhaol a byddai adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi a byddai ar gael i'r cyhoedd maes o law.<br>**Cyllid**: Nid oedd cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda swyddogion cyllid yr ALl eto y tymor hwn. Byddai Sara Hughes yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos tan ddiwedd tymor y gwanwyn. Disgwylir i nifer y disgyblion ostwng, a bydd hyn yn effeithio ar y gyllideb.<br>**Marchnata yn yr ysgol:** Mae'n parhau a rhennir arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y gymuned. Mae'n bwysig hysbysebu'r ffaith bod yr ysgol yn cynnig gofal cofleidiol a chodi proffil yr ysgol yn y gymuned.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i staff yr ysgol am eu gwaith caled dros y flwyddyn ac i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth barhaus.<br>Diolchodd y Pennaeth i'r Aelodau am eu gwaith caled a'u cymorth. | |
| 3ii | **CYLLID:** | |
| | **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r gyllideb weithio a osodwyd gan yr Ysgol. | |
| 4 | **HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi bod Hyfforddiant Asbestos a'r Fforwm Llywodraethwyr tymhorol wedi cael eu cynnal yn ystod y tymor. | |
| 5 | **POLISÏAU:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi na wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'r Polisïau Anstatudol canlynol: | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredu gan*: |
|---|---|---|
| | Anghenion Gofal Iechyd<br>Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Rheoli Safle<br>Atal Eithafiaeth<br>Canllawiau Trawsrywedd<br>Toiledau Ysgol<br>Camddefnyddio Sylweddau<br>Datblygu Cynaliadwy<br>Ffitrwydd a Bwyd Ysgol Gyfan | |
| 6 | **GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:** | |
| | Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod. | |
| 7 | **UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:** | |
| | Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod. | |
| 8 | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y cynhelir cyfarfod Llawn nesaf y Corff Llywodraethu ar 07.11.2024 am 4pm. | |

PL
17:07:2024

Cadeirydd: ………………………………………………… Dyddiad:……………………..